# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Trosnant**

**Heol y Parc**
**Rhuthun**
**LL15 1NB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Trosnant

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Anna Jones |
| Lleoedd cofrestredig | 12 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Ionawr 2020 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r Unigolyn Cyfrifol, sef rheolwr cofrestredig y gwasanaeth hefyd, yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn goruchwylio'r gwasanaeth a chynnal adolygiad o ansawdd y gofal. Mae dogfennaeth gofal ac asesiadau risg ar waith ac yn cynnwys digon o wybodaeth a chyfarwyddiadau i'r gweithwyr gofal gyflawni eu rôl. Mae'r cynlluniau personol yn cael eu hadolygu mewn modd amserol.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn Trosnant. Mae proses recriwtio ddiogel ar waith sy'n sicrhau bod y staff gofal yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed a bod digon o staff ar ddyletswydd. Mae'r staff yn cael hyfforddiant parhaus, ond nid yw'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau yn unol â'r rheoliadau. Mae amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith.

Caiff y bobl gynnig dewisiadau dyddiol. Mae'r cydberthnasau rhwng y staff a'r preswylwyr yn gynnes ac yn ofalgar. Mae dewis da o fwyd cartref maethlon a darperir ar gyfer y bobl sydd ag anghenion deietegol arbennig. Mae'r cartref yn ddiogel, yn lân, yn daclus ac mae'r staff yn ystyriol o ofynion atal a rheoli heintiau., Mae rhai o'r profion a'r gwiriadau cynnal a chadw sy'n ofynnol wedi'u cynnal yn hwyr neu heb eu cynnal o gwbl.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Gwrandewir arnynt a chânt eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ddyddiol, fel y gall y bobl godi unrhyw bryderon yn uniongyrchol â nhw. Clywsom y staff yn gofyn i'r bobl beth yr hoffent ei fwyta amser cinio a chynigiwyd dewis arall os nad oeddent yn hoffi'r hyn oedd ar y fwydlen.

Mae'r bobl yn cael cymorth gyda'u hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol. Mae'r staff yn sylwgar, yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at y bobl a gwelsom sawl enghraifft o hyn drwy gydol y dydd. Mae cynlluniau personol ar waith ac yn cynnwys digon o wybodaeth er mwyn i'r gweithwyr gofal gyflawni eu rôl yn gywir. Mae'r rheolwr a'r uwch-aelodau o'r staff yn cydweithio â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl mor iach â phosibl. Mae'r cynlluniau personol yn cael eu hadolygu mewn modd amserol.

Ar y cyfan, caiff y bobl eu hamddiffyn rhag achosion posibl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod. Caiff cofnodion y staff gofal eu gwirio. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff gofal wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rôl. Nid yw pob aelod o'r staff wedi cael sesiynau goruchwylio nac arfarniadau rheolaidd. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae'r rheolwr ar fin dechrau cynnal cyfres o archwiliadau rheoli mewn perthynas â meysydd sy'n ymwneud â rhedeg y cartref.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn y gwasanaeth. Mae'r safonau glendid a hylendid yn dda, ond nid yw rhai o'r gwiriadau, profion gwasanaethu a gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn ddigonol. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer rheoli'r risg o heintiau.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod gan y staff gynllun cyfredol sy'n nodi sut y dylid darparu eu gofal. Mae cynlluniau personol ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff gofal yn rhoi cymorth iddynt mewn modd amserol, yn trafod eu gofal â nhw ac yn eu cefnogi yn y ffordd y maent yn dymuno cael eu cefnogi. Roedd y dogfennau y gwnaethom edrych arnynt yn cadarnhau hyn. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg y bobl yn nodi hanes manwl o'u cyflyrau meddygol ac yn adlewyrchu'r canlyniadau a nodir mewn dogfennaeth broffesiynol yng nghofnodion y bobl. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth a drosglwyddir rhwng y staff, a oedd yn fanwl.

Darperir gofal a chymorth mewn ffordd sy’n amddiffyn ac yn cynnal diogelwch a llesiant yr unigolion. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl yn briodol, gydag urddas a pharch ac yn ôl cyflymder yr unigolyn. Cadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fod y staff gofal yn garedig ac yn dyner wrth roi cymorth iddynt. Mae hyrwyddwyr Iechyd y Geg ar waith yn y cartref i gefnogi'r staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a hybu iechyd da y geg. Caiff y bobl eu hatgyfeirio'n briodol at weithwyr gofal iechyd y geg broffesiynol yn ogystal â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Gwelsom wybodaeth i ddangos bod y staff gofal yn monitro cymeriant bwyd a diod y bobl ac yn cymryd camau prydlon os bydd unrhyw bryderon yn codi. Cadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fod y gweithwyr gofal yn dilyn eu gofynion deietegol.

Gall y bobl fod yn hyderus eu bod yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt a bod eu dymuniadau personol yn cael eu hystyried. Gwelsom fod y bobl yn cael dewis pa fwyd y maent am ei gael yn ystod amseroedd bwyd. Cadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fod hyn yn digwydd, a bod y bwyd yn dda. Gwnaethom arsylwi ar amser bwyd, a oedd yn brofiad pleserus i'r bobl, gyda rhyngweithio cadarnhaol. Gwelsom y bobl yn mwynhau eu cwmni ei gilydd ac yn treulio amser gyda'r gweithwyr gofal. Gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl yn briodol gan edrych i fyw eu llygaid ac ar gyflymder y person. Dywedodd y bobl wrthym fod gweithgareddau ar gael iddynt gymryd rhan ynddynt, ond gwnaethant ddweud wrthym y gallai fod mwy yn digwydd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae'r cartref yn gynnes, yn groesawgar ac wedi'i addurno'n dda. Mae lle i'r bobl ddewis ble y maent am dreulio eu hamser ac yn ystod yr arolygiad, roedd y bobl yn treulio amser yn y lolfa ac yn eu hystafelloedd os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o'r ystafelloedd gwely a gwelsom eu bod wedi cael eu haddurno'n dda, eu bod yn gynnes ac yn lân,  a bod y bobl yn gallu eu personoli os byddant yn dymuno gwneud hynny. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn y cartref. Gwelsom y staff domestig yn glanhau bob dydd. Nid oes unrhyw beryglon yn yr ardaloedd cymunedol. Mae gan Trosnant ardal awyr agored y mae'r bobl yn mwynhau treulio amser ynddi.

Ni all y bobl fod yn hyderus eu bod yn byw mewn amgylchedd diogel bob amser. Mae'r brif fynedfa'r yn ddiogel; fodd bynnag, ni ofynnwyd i ni pwy oeddem ac ni chafodd ein manylion eu gwirio cyn i ni fynd i mewn i'r lleoliad. Caiff dogfennaeth gofal y bobl ei chadw'n ddiogel. Er bod y profion trydanol yn eu cynnal mewn modd amserol, gwelsom fod yr Asesiad Risg Tân wedi dyddio ac nad oedd profion am Legionella yn cael eu cynnal. Gwnaethom ofyn am gopi o'r gwiriad diogelwch nwy blynyddol, ond ni chafodd ei anfon atom. Er bod yr uwch-reolwyr wedi dweud wrthym y byddent yn cysylltu â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol mewn perthynas â'r prawf hwn, rydym wedi rhoi gwybod i'r partneriaid perthnasol am y diffygion hyn. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i fynd i'r afael ag ef.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Nid oes trefniadau ar waith bob amser i oruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth yn effeithiol. Gwelsom fod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac wedi cwblhau'r ymweliadau gofynnol ac wedi llunio adroddiad mewn perthynas â hyn. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei gwblhau yn unol â'r rheoliadau a dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym eu bod yn cael cymorth rheoli da gan y darparwr. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwyr wrthym eu bod yn adolygu'r cynlluniau personol a'r ddogfennaeth gofal yn rheolaidd, ond dywedwyd wrthym nad yw'r rheolwyr wedi cwblhau archwiliadau ffurfiol. Felly, nid yw'r darparwr yn goruchwylio meysydd megis adolygiadau o gynlluniau personol a chynnwys y cynlluniau personol yn ffurfiol. Gwnaethom siarad â'r uwch-reolwyr am hyn, a bydd y broses hon yn cael ei rhoi ar waith. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae ffeiliau'r staff yn dangos bod trefniadau cadarn ar waith i recriwtio gweithwyr gofal a bod gwiriadau priodol wedi cael eu cwblhau. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y staff gofal yn cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rôl. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant sefydlu manwl yn unol â'r gofynion statudol. Cadarnhawyd hyn gan y bobl, a ddywedodd wrthym fod y cymorth a ddarperir yn dda.  Gwelsom fod y staff gofal wedi'u cofrestru â'r corff proffesiynol priodol. Dywedodd y bobl wrthym fod digon o staff ar ddyletswydd a bod y staff gofal yn dod atynt yn gyflym pan fyddant yn eu galw. Roedd y rotas staff a welsom yn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, er bod rhai sesiynau goruchwylio wedi cael eu cynnal, dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym nad oedd sesiynau goruchwylio eraill yn cael eu cwblhau yn unol â'r rheoliadau ac nad oedd pob aelod o'r staff wedi cael arfarniadau. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym y byddai'r broses hon yn cael ei rhoi ar waith. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a gwelsom eu bod yn gynhwysfawr.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Nid yw'r rheolwr wedi cynnal archwiliadau ffurfiol o'r gwasanaeth. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r staff wedi cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau yn unol â'r rheoliadau. | Newydd |
| 57 | Ni chaiff asesiadau risg tân, gwiriadau diogelwch tân, profion Legionella na phrofion diogelwch nwy eu cynnal yn rheolaidd, yn unol â'r canllawiau. | Newydd |
| 15 | Nid oedd y darparwr yn cydymffurfio â Rheoliad 15 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae hyn am nad oedd wedi datblygu cynllun gofal ar gyfer unigolyn a oedd wedi symud i'r cartref mewn modd amserol. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/12/2023